Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Cultural Trust

# Amlinelliad Swydd

## Teitl Swydd:
Technegydd

## Sail:
Rhan Amser – 22.5 awr, Blynyddol

## Cyflog:
Gradd 8

## Statws:
Parhaol

## Lleoliad:
Y Muni

## Yn atebol i:
Rheolwr Cynhyrchu Technegol

## Yn atebol am:
Amherthnasol

## Eich Rôl:

Bod yn gyfrifol am ddarparu gweithrediadau technegol o ansawdd uchel ar gyfer perfformiadau a digwyddiadau, gan gynnwys goleuadau, sain, cylweledol, SFX, set a golygfeydd.
Goruchwylio Cynorthwywyr Technegol Achlysurol i sicrhau bod cymorth technegol effeithiol yn cael ei ddarparu bob amser.

# Yn y rôl byddwch yn:

- Sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu cynnal yn ddiogel ac i'r safonau technegol uchaf gan gynnwys: gweithredu a chynnal offer technegol, cynorthwyo gyda sefydlu, paratoi a chynnal digwyddiadau, cysylltu â defnyddwyr ymlaen llaw i sefydlu eu gofynion.
- Goruchwylio gweithrediadau technegol perfformiad neu ddigwyddiadau yn absenoldeb yr Uwch Dechnegwyr neu'r Technegwyr Arweiniol gan gynnwys: goruchwylio a darparu cyfarwyddyd i dechnegwyr achlysurol, cysylltu â'r cwmni theatr teithiol / llogwr / cleient a sicrhau bod eu disgwyliadau yn cael eu bodloni neu eu rhagori lle bynnag y bo modd.
- Sicrhau bod y cedwir at yr holl ofynion Iechyd a Diogelwch sy'n ymwneud â chyflwyno digwyddiadau a chynnal y lleoliad.

.

- Cynnal gwiriadau ac archwiliadau ar offer technegol a gwiriadau eraill sy'n gysylltiedig â lleoliad.
- Gweithredu fel deiliad allweddi sy'n gyfrifol am agor a chau'r lleoliad, gan gadw at weithdrefnau sydd wedi eu gosod ac yn unol ag anghenion busnes.
- Cynnal a chadw ataliol ac adweithiol rheolaidd yn unol ag amserlenni cynnal a chadw.

# Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Cyffredinol:

- Bod yn gyfrifol am eich diogelwch eich hun a diogelwch staff eraill ac unrhyw aelod o'r cyhoedd y gallai eich gweithredoedd a'ch anweithredoedd effeithio arnynt yn y gwaith.
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau hyfforddi a datblygu i gynnal eich datblygiad eich hun neu i wella cymhwysedd o fewn swydd.
- Cynnal ac integreiddio ein pwrpas a'n gwerth ym mhopeth a wnewch.
- Sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cwblhau yn unol ag ymrwymiad Awen i degwch ac amrywiaeth ac yn unol ag arfer gorau a deddfwriaeth.
- Nid yw hwn yn ddatganiad cyflawn o'r holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n ffurfio'r swydd hon, ac efallai y bydd yn rhaid ei amrywio i ddiwallu anghenion newidiol y busnes.

awen

# Manyleb Person

## Y Person (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H):**

- Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun yn ogystal ag fel aelod allweddol o dîm. (H)
- Ymagwedd ac agwedd hyblyg a rhagweithiol (H)
- Ymagwedd ac agwedd gyfeillgar, diffwdan a theg (H)
- Y gallu i weithio dan bwysau a chyflawni canlyniadau i derfynau amser tynn (H)
- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid (H)
- Diddordeb a brwdfrydedd mewn theatrau a chelfyddydau (H)
- Yn canolbwyntio ar ddatrysiadau a chyflawni blaenoriaethau
- Meddwl ymlaen ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiad Awen

# Cymwysterau, Sgiliau, Galluoedd a Phrofiad:

## (NODIR MEINI PRAWF HANFODOL FEL **(H)**:

- Safon dda o addysg, sy'n cyfateb i NVQ/OCF 2, neu'r gallu i ddangos cymhwysedd trwy brofiad (H)
- Cymhwyster perthnasol sy'n gysylltiedig â theatr/technoleg fyw neu'r gallu i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd trwy brofiad (H)
- Gallu trefnu gwaith i fodloni terfynau amser (H)
- Rheoli amser yn dda ac yn gallu dilyn cyfarwyddiadau (H)
- Sgiliau gweinyddol da gyda dull trefnus a sylw i fanylion (H)
- Y gallu i godi, symud a chario llwythi/stoc ac offer/eitemau eraill yn ôl yr angen (H)
- Trwydded yrru lawn a'ch cerbyd eich hun at ddibenion gwaith (H)
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer theatrau a digwyddiadau byw (H)
- Profiad o weithio fel rhan o dîm (H)
- Profiad o weithio mewn theatrau/amgylcheddau digwyddiadau byw ac wedi defnyddio o leiaf un agwedd ar dechnoleg digwyddiadau byw, gan gynnwys, goleuo, sain, clyweledol a rheoli llwyfan (H)
- Profiad o ddefnyddio amrywiaeth o becynnau TGCh gan gynnwys pecynnau Microsoft, QLab, GrandMA, Allen & Heath, Autocad.
- Canolbwyntio ar ddatrysiadau a chyflawni blaenoriaethau.
- Y gallu i siarad Cymraeg